

163)Cyngor Cymuned Llanfihangel ar arth/Community Council:cyfarfod misol/monthly meeting.Zoom nos Lun Tachwedd 15ed 2021 —7.30pm

Cynghorwyr yn bresennol/Councillors present:Annette Davies,E.Jones,M.Griffiths,H.Lewis,G.Jones,V.Davies,D.Davies,
Y.Griffiths,S.Mason,M.Evans.C.Sir Linda Evans.

Ymddiheuriadau(apologies):Arwel Davies. Absennol:B.Cobain

Clerc:Anita Evans

Heddlu/police: neb

1)Cadeiriwyd gan Martin Griffiths.Croesawodd bawb,a nodwyd ymddiheuriadau/absenoldeb.Martin Griffiths(chairman)welcomed all to the meeting,and apologies/absences noted.

2)Datgan diddordeb gan Gynghorwyr/declaration of interest:163,5(e)M.Griffiths,D.Davies,V.Davies;E.Jones 164 (8 iii)

3)Heddlu/Police.Dim swyddog yn bresennol ond adroddiad wedi ei dderbyn oddiwrth PCSO Anwen Davies,sydd yn ddefnyddiol iawn.Barbed wire wedi ei osod yn y clawdd yn y cae chwarae ar bwys y dug-out.Bydd E.Jones yn rhoi gwybod i PIDA.Ma'r Heddlu'n mynd i fonitro'n gyson.No Police present—we received the monthly data from PCSO Anwen Davies,which is very useful.Barbed wire has been placed in the hedge by the dugout in the playing field.E.Jones will inform PIDA.The Police have assured us that this area will be constantly monitored by them.

We will again write to the Commissioner,and Chief Constable re concerns about proposed Police cuts.(pr.AD sec.DD)

4)Cofnodion mis Hydref/Oct.minutes found to be correct—prop.S.Mason,sec.A.Davies.

5)Materion y Clerc/Clerk matters:

a)Atebion D.King a N.Smith am ein hewlydd gwael—nid yw atebion D.King yn dderbyniol,ac fe fydd y Clerc yn cysylltu eto.As the replies from Highways are not acceptable re our dangerous routes within the Parish,Clerk will write again.

b)NRW—D.Davies wedi cael ateb eu bod yn cadw llygad ar y coed yn yr afon/keeping a close eye on trees in the river;their incident team was informed 22/10/21

c)Sticeri gosod baw cŵn mewn binie du stryd—byddwn yn archebu rhagor/more bin stickers will be ordered for b(for placing dog mess in street bins).

ch)Yn dilyn ei hymweliad i gyfarfod Hydref i esbonio gwaith Broadband Cymru,penderfynnwyd ei gwahodd yn Ionawr,i esbonio ymhellach y ffordd ymlaen.Yn y cyfamser,bydd y Cynghorwyr yn anfon eu cwestiynnau/gofynion i E.Jones erbyn 31/12/21.Following Katie Williams attending our October meeting on behalf of Broadband Cymru,members felt they needed further information.Therefore they were asked to forward questions/concerns to E.Jones by 31/12/21;K.Williams will be invited to our January meeting.

d)Golau Marshlands—yn dilyn pasio ein bod yn gosod golau Newydd yn Marshlands,mae angen cysylltu â'r cymdogion,cyn adrodd nôl i'r swyddog yn y C.Sir/prior to a new light pole being erected in Marshlands,we will contact residents.

dd)Daeth tyrfa dda i'r gwasanaeth Sul y Cofio,ac er nad oedd yn bosib cael Heddlu yn bresennol,aeth popeth yn iawn.Bydd y Clerc yn anfon adroddiad i Clecs.The Remembrance service was held successfully at Pencader.Thanks to Revs.B.Timothy,C.Bolton,Robert Davies and Mark Jay for their presence,and contribution.No Police could attend.

e)Highway Garage—D.Bryant owner has promised to keep road clear from cars.

164) 6. Cyfrifon/finances: Cafwyd yr adroddiad yn gywir/statement correct prop.A.Davies sec.Y.Griffiths.Gofynnodd y Clerc am ganiatad i dalu unrhyw filiau dros Ragfyr/Clerc asked for permission to pay any bills over December(as there is no meeting until January)Council agreed-prop.A.Davies,sec.S.Mason.Derbyniwyd cofnodion yr is-bwyllgor cyllid/minutes of finance sub-committee accepted-prop.E.Jones,sec.D.Davies.

Biliau i'w talu/bills to be paid:

Cyflogau(wages):£2,167.67;Clerc (petrol)£13.01;costau eraill(postage/telephone):£27.97;battery for laptop:£26.91;Un Llais Cymru/One Voice Wales—training:£90.00;Windy Corner petrol:£114.79;Kangaloos:£120.00;

Abbey Masonary(glanhau/clean War Memorial:£960.00

Zoom:£11.99; Y Gofgolofn/War Memorial insurance:£535.82.i'w talu—to be paid(prop.A.Davies sec.Y.Griffiths).

7)Cynllunio/planning:

Rhain wedi e-bostio i'r Cynghorwyr-dim gwrthwynebiad/following e-mailed to Councillors -no objections:

a)Dolwerdd,Rivendell,Emlyn Villas,Berllan.

8)Gohebiaeth/correspondence:

i)Holiadur ar fannau chwarae/questionnaire on play assessment.

ii)holiadur Fferm Wynt Brechfa/questionnaire for B.F.Wind Farm following grants received.

iii)Cyngor Ceredigion—E.Jones yn datgan diddordeb(a gadael y cyfarfod)-gwybodaeth am lefelau ffosffad yn ardal cadwraeth arbennig afon Teifi.C.Sir L.Evans yn dweud fod 'run problem ar y Tywi.Ceredigion Council have sent a letter re.phosphate levels in the Teifi.E.Jones declared an interest,and left the meeting.C.C.L.Evans stated that there are also problems on the Tywi.

iv)o gofnodion mis Hydref-bydd rhain yn cael eu hanfon at y C.Sir/the following problems arose in the Oct.meeting and will be forwarded to the Co.Council:golau ar bwys Fferm Cross Inn/faulty street light;draenau New Inn/drains;twll ar y tro allan o Gwyddgrug;potholes Gwenfro a Garej Tweli;taliadau brys/emergency payments next meeting.

V)M.Griffiths—polisiau—derbyniwyd a mabwysiadwyd y polisiau canlynol:Pryderon a Chwynion,polisi ar weithredoedd annerbyniol gan unigolion.The following policies have been received and adopted by Councillors:concern and complaints,unacceptable actions by individuals-prop.E.Jones,sec.H.Lewis.Cyfarfod pwyllgor Ardal 27/10—sôn am gyllid oddiwrth y Loteri Genedlaethol –ffurflenni cais ar gael.Carmarthenshire Area meeting on the 27/10 was addressed by Mr.Chris Baker(National Lottery)who explained that there are application forms available.

vi)Esta Jones wedi gwneud cais am fin sbwriel baw cŵn yn Llanfihangel ar arth rhwng y sgwâr a'r cae chwarae.Y teimlad yn y Cyngor yw fod digon o finiau yn yr ardal yn barod;cynnigiodd E.J ac eiliodd M.E.nad oedd angen un arall.We cannot support the placing of another rubbish bin in Llanfihangel.

vii)negeseuon oddiwrth Un Llais Cymru wedi eu ebostio—her yr hinsawdd;problem ail gartrefi;cyllid defibrillators— oddiwrth Llywodraeth Cymru i'r Gwasanaeth Ambiwlans.Addawodd E.Jones wneud ymholiadau—nodwyd ardaloedd yn New Inn a Dolgran fyddai'n addas.One Voice Wales-e-mails have been forwarded re second homes,climate challenges,and funding for defibrillators.E.Jones will identify sites in New Inn,Dolgran for future possibility.

165)Gwybodaeth oddiwrth y Cynghorwyr/information from Councillors:

Y.Griffiths-- golau fflachio cyflymder troad Maesawelon,Gwyddgrug ddim yn gweithio/VAS faulty.

H.Lewis--- clustogau cyflymder ym Mhencader yn wael/speed cushions in Pencader are in a very poor state.

D.Davies---arwydd un o glustogau cyflymder Pencader ar lawr/ speed hump sign on ground.

Clerc:---angen diolch i'r bobl sy wedi dwrhau'r cafnau drwy'r haf/we need to thank individuals who watered planters

G.Jones----arwydd anaddas i gerbydau trwm ar droad Glantweli Fach wedi ei fwrw/sign stating that the road past Glantweli Fach is unsuitable for heavy vehicles has been damaged.

**Cyfarfod nesa Ionawr 17 2022 **
